# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:

Fideo Gynadledda drwy Zoom

Dyddiad: Dydd Iau, 19 Tachwedd 2020

Amser: 09.18 - 10.38

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/6547

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Lynne Neagle AS (Cadeirydd)<br>Dawn Bowden AS<br>Hefin David AS<br>Suzy Davies AS |
| Tystion: | Becky Ricketts, Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr<br>Joe Atkinson, Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr, Cymru<br>Jim Dickinson, WONKHE<br>Jamie Insole, Undeb Prifysgolion a Cholegau |
| Staff y Pwyllgor: | Tanwen Summers (Ail Glerc)<br>Sarah Bartlett (Dirprwy Glerc)<br>Phil Boshier (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod rhithwir y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

1.2 Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, dywedodd y Cadeirydd ei bod wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd, ond bod y cyfarfod yn cael ei ddarlledu'n fyw ar www.senedd.tv.

1.3 Dywedodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor wedi cytuno, pe bai hi'n gadael y cyfarfod am unrhyw reswm, y byddai Dawn Bowden AS yn Gadeirydd Dros Dro yn unol â Rheol Sefydlog 17.22.

1.4 Cafwyd ymddiheuriadau gan Sian Gwenllian AS a Laura Jones AS, ac nid oedd dirprwyon.

## 2 Sesiwn dystiolaeth ar effaith Covid-19 ar Addysg Uwch a lles staff a myfyrwyr gyda chynrychiolwyr o'r sector addysg uwch

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr Cymru, yr Undeb Prifysgolion a Cholegau (UCU) a WONKHE.

2.2 Cytunodd UCM Cymru i ddarparu rhagor o wybodaeth am y defnydd o'r cyllid ychwanegol a ddarparwyd i sefydliadau Cymru gan Lywodraeth Cymru ac effaith hwn.

2.3 Cytunodd yr Undeb Prifysgolion a Cholegau (UCU) i ddarparu gwybodaeth am lefelau recriwtio ar draws sefydliadau yng Nghymru, a dyfynnwyd ymchwil yn y dystiolaeth am yr effaith y mae'r pandemig yn ei chael ar staff addysg uwch o bob rhyw.

## 3 Papurau i'w nodi

3.1 Cafodd y papurau eu nodi.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Effaith Covid-19 ar Addysg Uwch a llesiant staff a myfyrwyr gyda chynrychiolwyr o’r sector addysg uwch – trafod y dystiolaeth

5.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a glywyd yn y sesiwn flaenorol.

## 6 Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) – trafod yr adroddiad drafft.

6.1 Gohiriwyd yr eitem hon. Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Pwyllgor Busnes i ofyn am gyfarfod ychwanegol ddydd Llun 30 Tachwedd i ystyried yr adroddiad drafft ymhellach.